



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coronafeirws (COVID-19)

5 ffordd gallwch chi helpu eich fferyllfa chi

Dyma ddogfen hawdd ei darllen oddi wrth Lywodraeth Cymru



Salwch newydd yw COVID-19. Mae llawer o bobl yn ei alw e'n goronafeirws. Mae e'n gallu effeithio ar eich ysgyfaint a'ch anadlu.



1. **Peidiwch** ag ymweld â fferyllfa os oes gwres neu beswch newydd arnoch chi neu ar rywun rydych chi'n byw gyda nhw.



2. Archebwch eich presgripsiynau chi **7 diwrnod** cyn i chi eu hangen nhw er mwyn rhoi amser i'r fferyllfa helpu pawb.



3. Rhowch rif eich ffôn chi ar eich presgripsiwn chi.

- Bydd y fferyllfa yn eich ffonio chi pan fydd eich presgripsiwn chi'n barod i'w godi.
- Arhoswch am y fferyllfa i'ch ffonio chi.
- Peidiwch â ffonio eich fferyllfa chi oni bod bod hi'n fater o frys.




4. Os ydych chi'n aros gartref achos bod peswch newydd neu wres arnoch chi:

- gofynnwch i'ch ffrindiau neu'ch teulu chi godi eich presgripsiynau chi neu
- siaradwch â'ch fferyllfa gymunedol chi i weld os gallan nhw helpu.



5. Os nad ydych chi'n sâl, cynigiwch godi presgripsiynau ar gyfer ffrindiau neu aelod o'r teulu sy'n sâl.



- Byddwch chi angen eu henw a'u cyfeiriad nhw er mwyn cael codi eu presgripsiwn nhw.



Bydd y staff yn ein fferyllfeydd ni'n gweithio'n galed iawn i helpu pobl i gael y moddion maen nhw eu hangen.

Drwy ddilyn y 5 cam syml hwn, gallwch chi eu helpu nhw i wneud eu gwaith.



Diolch yn fawr.

Mae'r lluniau yn y crynodeb hwn oddi wrth Photosymbols:
<https://www.photosymbols.com/>